

Cyfeirnod: IR920

Dyddiad cyhoeddi: 12 Gorffennaf 2024

920 Datganiadau Blynyddol Cyngorau Cymuned a Thref

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 30 Mai 2024 lle gwnaethoch ofyn "gwybodaeth a dderbyniodd Archwilio Cymru ar ôl y 30 Mehefin yn unrhyw un o'r blynyddoedd isod mewn perthynas â'r Datganiadau Blynyddol a gyflwynwyd gan Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru, ar gyfer y blynyddoedd ariannol canlynol 2019/20, 2020/21, 2021/22". Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

1. Faint o Gyngorau Cymuned a Thref a dderbyniodd farn amodol neu farn archwilio ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol ar ôl y 30 Mehefin yn unrhyw un o'r blynyddoedd uchod?

Bydd pob cyngor yn derbyn barn archwilio ar ôl 30 Mehefin gan nad ydyn nhw'n dechrau cael eu cyhoeddi tan fis Medi. O'r eglurhad a anfonwyd gennych mae'n ymddangos eich bod yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â faint o gyngorau tref a chymuned sy'n cael barn gymwys oherwydd eu bod yn cynhyrchu eu cyfrifon yn hwyr. Mae hyn yn gofyn am rywfaint o esboniad i'r ateb fod yn ystyrlon, fel a ganlyn:

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ddau beth ddigwydd:

- Rhaid i'r RFO ardystio'r cyfrifon erbyn 30 Mehefin; ac
- Yn dilyn yr ardystiad hwn, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Mehefin.

Os nad yw'r camau hyn wedi'u cwblhau erbyn 30 Mehefin, yna rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad sy'n nodi'r rhesymau am hyn.

Rydym yn cyhoeddi barn amodol os:

- Methodd y Cyngor y dyddiad cau sef 30 Mehefin, A

- Heb gyhoeddi'r hysbysiad gofynnol.

Pe bai, er enghraifft, cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon ar 4 Gorffennaf ond wedi cyhoeddi hysbysiad erbyn 30 Mehefin yn esbonio'r oedi, byddai'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliadau a byddai'n derbyn barn ddiamod. Os na chyhoeddwyd hysbysiad, byddai barn amodol yn cael ei gyhoeddi.

Hyd yn hyn, ar gyfer 2022-23 rydym wedi cyhoeddi barn amodol i 45 o gynghorau ar y seiliau hyn (2021-22: 43 o gynghorau, 2020-21: 54 o gynghorau). Mae'r niferoedd hyn yn debygol o gynyddu wrth i ni dderbyn cyfrifon hwyr. Efallai bod y barn archwilio ar gyfer rhai o'r cynghorau hyn wedi bod yn gymwys am fwy nag un rheswm. Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

2. Faint o Gynghorau Cymuned a Thref sydd heb gyhoeddi cyllidebau cyngor yn y cofnodion?

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon.

3. Faint o Gynghorau Cymuned a Thref nad ydynt yn cyhoeddi cyllidebau llawn gyda phenawdau cyllideb unigol yn y cofnodion na'u gwefannau?

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon.

4. Faint o Gynghorau Cymuned a Thref sydd heb gyhoeddi cyllidebau cyngor ar eu gwefannau?

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth